Capel Ebeneser, Treuddyn

**Newyddion Diweddaraf**

**Hydref 2024 – Rhagfyr 2024**

Yn ystod misoedd y Gwanwyn a'r Hâf, cynhaliwyd Cymdeithas y Capel ar yr ail nos Fawrth o'r mis. Bydd y gweithgareddau hyn yn dod i ben ar ddydd Sadwrn, Hydref 12fed, pan fyddwn yn cynnal prynhawn Paned a Chacen am 3 o'r gloch yng nghanolfan Hafan Deg. Pris mynediad fydd £3.00. Estynnwn groeso cynnes i bawb ymuno â ni.

Anfonwn ein llongyfarchiadau a dymuniadau gorau at Maldwyn Roberts ar ddathliad ei benblwydd yn 80 oed yn ddiweddar. Da yw deall hefyd bod Maldwyn yn gwella'n ara' deg.

Gyda'r awr yn newid diwedd mis Hydref bydd amser ein gwasanaethau yn newid i'r prynhawn. Byddwn yn cynnal gwasanaethau dwyieithog ar Hydref 27ain am 2.30yp pan fydd y Diacon Lisa Rathbone yng ngofal y gwasanaeth, ac ar yr 8fed o Ragfyr bydd Mrs Sian Williams gyda ni. Estynnwn groeso cynnes iawn i bawb ymuno â ni yn y gwasanaethau dwyieithog hyn.

Cynhelir ein Gwasanaeth Carolau dwyieithog eleni ar yr 22ain o Ragfyr am 2.30yp dan ofal ein gweinidog y Parch Eirlys Gruffydd Evans. Unwaith eto bydd plant Clwb Capel Ebeneser yn cymryd rhan yn y gwasanaeth. Bydd lluniaeth ysgafn ar gael yn dilyn y gwasanaeth. Croeso cynnes i bawb.

Dymunwn Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

<u>Gwasanaethau Hydref – Rhagfyr 2024</u> (**amser fel y nodir**)

| | |
|---|---|
| Hydref 6ed | Parch Eirlys Gruffydd Evans am **6yh** **Cymun** |
| Hydref 13eg | DIOLCHGARWCH - Parch Robert Parry am **6yh** |
| Hydref 20fed | Parch Marc Morgan am **4yp** |
| Hydref 27ain | Diacon Lisa Rathbone am **2.30yp** (**English Address**) |
| Tachwedd 3ydd | Parch Eirlys Gruffydd Evans am **2.30yp** **Cymun** |
| Tachwedd 10fed | |
| Tachwedd17eg | Parch Marc Morgan am **4yp** |
| Tachwedd 24ain | Parch Eirlys Gruffydd Evans am **2.30yp** |
| Rhagfyr 1af | Parch Ddr Jennie Hurd am **4yp** **Cymun** |
| Rhagfyr 8fed | Mrs Sian Williams am **2.30yp** (**English Address**) |
| Rhagfyr 15fed | Trefniant Lleol am **2.30yp** |
| Rhagfyr 22ain | **GWASANAETH CAROLAU** - Parch Eirlys Gruffydd Evans am **2.30yp** **English Address** |